Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, nos Fercher, 4 Rhagfyr 2024, yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol a'i ragflaenodd.

**PRESENNOL**

Y Cynghorwyr Mrs. J. Chamberlain-Jones, K.R. Jones, W. Price, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford ac A. Walker.

Hefyd yn bresennol

Mr. G.J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**32. YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr M. Blackwell, S. Feeney, Miss S. Fleming, Ms. J. McAlpine, B. Mellor, Ms R.S. Roberts a D. Simmons.

**33. PENODI CADEIRYDD I'R CYFARFOD**

***PENDERFYNWYD*** *yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, penodi'r Cynghorydd A.J. Rutherford yn gadeirydd y cyfarfod hwn.*

**34. DATGAN BUDDIANNAU**

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan aelodau unrhyw fuddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu i'w datgan yng nghyswllt unrhyw un o'r eitemau busnes i'w hystyried ar yr agenda?

***PENDERFYNWYD*** *dim datganiadau.*

**35. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd yr aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir wrth y cais.*

**Nodyn 1:** Cynghorir yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod Cyngor Tref y Rhyl yn dymuno datgan, ble bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd osod arwyddion dwyieithog o amlygrwydd cydradd, i adlewyrchu natur ieithyddol ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn ffurfiol yn ddiweddar ac felly byddai'n dymuno bod datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl geisiadau maint mawr yn y dyfodol yn uchafu'r defnydd o dechnolegau sy'n bodoli eisoes i leihau'r effaith negyddol ar yr hinsawdd.

| **RHESTR Y CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| 36.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 1B Rhodfa Oakland, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Foryd |

| | |
|---|---|
| | **CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs. J. Butterfield<br>A.R. James<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1416<br><br>**DISGRIFIAD:** Codi uchder y to i greu estyniad ail lawr i'r annedd sy'n bodoli gan ffurio un fflat hunangynhwysol, yn cynnwys gosod balconi ar y llawr cyntaf a'r ail lawr, estyniad i'r porth sy'n bodoli eisoes, addasiadau i'r ardal parcio a gwaith cysylltiedig.<br><br>**YMGEISYDD:** Mr. D. Skelly<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |
| 36.2 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 31 – 37 Ffordd Russell, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2023/0832<br><br>**DISGRIFIAD**: Newid swyddfeydd i ffurfio chwech annedd, yn cynnwys llunio agoriadau newydd i ddrysau a ffenestri, tynnu rhan o'r wal derfyn i ffurfio mynediad a lle parcio a gwaith cysylltiedig.<br><br>**YMGEISYDD:** Mr G. Morris o'r cyfeiriad uchod<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |
| 36.3 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 31 – 37 Ffordd Russell, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2023/0833<br><br>**DISGRIFIAD**: Newid swyddfeydd i ffurfio chwech annedd, yn cynnwys llunio agoriadau newydd i ddrysau a ffenestri, tynnu rhan o'r wal derfyn i ffurfio mynediad a lle parcio a gwaith cysylltiedig (Cais Adeilad Rhestredig).<br><br>**YMGEISYDD:** Mr G. Morris o'r cyfeiriad uchod<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |
| 36.4 | **LLEOLIAD Y SAFLE**: 29 Lon Bedw, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Tŷ Newydd<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: M. Blackwell<br>A. Walker |

| | |
|---|---|
| | Miss C.L. Williams<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1390<br><br>**DISGRIFIAD:** Adeiladu estyniad llawr cyntaf uwchben garej cysylltiedig sy'n bodoli eisoes a gwaith cysylltiedig.<br><br>**YMGEISYDD:** Mr Marc Roberts<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |

**36. DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod, cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: ………………………...